# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **16 Mehefin 2026** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Drafft o adroddiad Blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth** |

### 1. PENDERFYNIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ystyried yr adroddiad a'i gynnwys, a'i argymell i'w fabwysiadu gan y Cyngor Llawn yn unol a'r gofyn.

### 2. Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?

2.1 Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn yn flynyddol yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr.

2.2 Yn unol a gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:

- Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth
- Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl,
- **Cynhyrchu adroddiad, o leiaf pob blwyddyn, i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.**

2.3 Yn unol a'r arfer, mae'r adroddiad blynyddol yn un cryno ac yn canolbwyntio ar y datblygiadau a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn yn hytrach nag amlinellu'r holl gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau.  Yn ogystal mae'n amlinellu'r prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

2.4 Adroddiad ar ffurf drafft a gyflwynir i chi heddiw, gyda chyfle i chi roi sylw ar ei gynnwys a'i ffurf. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Gorffennaf.

2.5 Dymunaf ddiolch i chi aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am eich sylwadau adeiladol yn ystod ein cyfarfodydd dros y flwyddyn. Mae nifer o dimau yn fy nghynorthwyo i ddarparu'r gefnogaeth orau bosib i chi, a dymunaf ddiolch i bawb am eu gwaith, ond rwyf am ddiolch yn benodol i swyddogion y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith, sef eich prif gyswllt dydd i ddydd, i'r tîm dysgu a datblygu, a'r holl swyddogion eraill sy'n cynorthwyo i'ch cefnogi yn eich rôl.